

Y corff, hinsawdd a hanes – cyfoeth o gyfresi ffeithiol ar S4C cyn hir

Corff Cymru: Bywyd – dechrau nos Fercher 4 Mai 8.25pm. Mewn cyfres chwe rhaglen bydd Dr Anwen Rees a Dr Katie Hemer yn ein tywys drwy brif ddatblygiadau'r corff – o fabanod i henoed. Gan edrych ar y cyfnodau pwysig ym mywyd person, mi fydd y rhaglen yn archwilio'r newidiadau biolegol, seicolegol a chymdeithasol ar bob carreg filltir.

Straeon y Ffin – dechrau ar nos Wener 13 Mai 9.30pm. Cyfres hanes yng nghwmni Gareth Potter fydd yn mynd â ni ar daith i rai o'r trefi sydd ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Bydd yn gofyn sut mae bod ar y ffin rhwng dwy wlad wedi dylanwadu ar ei hunaniaeth, ei hiaith a'i hanes.

Her yr Hinsawdd – yn dechrau

mis Gorffennaf. Pwnc amserol iawn yw'r sôn am y newid yn yr hinsawdd. Yr Athro Siwan Davies sy'n cyflwyno – arbenigwr mewn newidiadau hinsoddol yn y gorffennol pell. Ond yn y gyfres hon mi fydd hi'n ymchwilio beth all ddigwydd yn y dyfodol a beth fydd effeithiau newid hinsawdd ar y genhedlaeth nesaf.

Dysgu gyda Cyw

Bob dydd Mercher, am 12.00 o'r gloch, mae S4C wedi neilltuo un awr arbennig ar gyfer rhaglenni lliwgar sy'n helpu plant bach i ddysgu a datblygu. Yn eu plith mae Jen a Jim Pob Dim, rhaglen fathemateg sy'n addas i blant y Cyfnod Sylfaen, a Ti Fi a Cyw, ble mae plant bach yn troi'n athrawon i ddysgu Cymraeg i'w rheini!



Gallwch recordio holl raglenni S4C ar gyfer eu gwyllo eto yn yr ystafell ddosbarth, neu mae holl raglenni S4C ar gael am 35 diwrnod ar-lein ar s4c.cymru neu BBC iPlayer.

Mae isdeitlau Saesneg ar gael ar y rhan fwyaf o'r rhaglenni; ar deledu ar ar-lein.

Mae hefyd hawl i chi archebu copiâu DVD ar gyfer ei defnyddio yn y dosbarth. Cysylltwch â Gwifren Gwylwyr S4C am ffurflen gais: gwifren@s4c.cymru neu 0370 600 4141 (Ni fydd galwadau'n costio mwy na galwad gyfradd genedlaethol i rifau 01 neu 02.)

Sut mae ERA yn cefnogi Addysg?

Mae trwydded ERA yn caniatáu aelodau staff i wneud copiâu o raglenni, eu cadw ar rwydwaith fewnol neu i ddefnyddio clipiau ar wasanaethau ar alw neu wefan s4c.cymru.

Mae S4C hefyd ar gael ar BBC iPlayer. Mae S4C yn aelod o ERA fel darlledwr ac yn rhannu gwybodaeth gydag ERA am gynnwys iaith Gymraeg.


Er mwyn cefnogi addysg mae'r Drwydded ERA yn golygu fod modd annog myfyrwyr i wyllo cynnwys - boed yn addasiadau neu yn

ddetholiad o glipiau - yn ei hamser ei hunain ar gyfer trafodaeth yn yr ystafell ddosbarth. Mae gwyllo'r clipiau o flaen llaw yn rhyddhau amser yn y wers ar gyfer y drafodaeth.

Rydym yn trydar ac yn blogio'n gyson am raglenni, tymhorau neu gyfresi all fod o ddiddordeb i chi. Er enghraifft, mae 2016 yn nodi 50 mlynedd ers trychineb Aberfan. Yn yr hydref bydd S4C yn dangos nifer o raglenni am y trychineb a'r digwyddiadau sy'n cael eu cynnal er cof.

Dilynwch ni ar Twitter ([@eraresources](https://twitter.com/eraresources)) am y diweddaraf.

Rydym eisiau helpu pawb i fanteisio'n llawn ar y drwydded ERA, ac felly rydym wedi creu'r adran Adnoddau ac Astudiaethau Achos ar ein gwefan. Drwy ein gwaith gydag athrawon rydym wedi casglu straeon sy'n dangos sut mae modd defnyddio fideo a sain mewn ffordd arloesol er mwyn ysbrydoli disgyblion yn y gwersi. Mae croeso i chi hefyd gyfrannu at yr adran hon unrhyw bryd.



Lansio Platform Dysgu ERA

Cael mynediad at y cynnwys sydd wedi ei drwyddedu gan ERA yw un o fanteision mwya'r gwasanaeth. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi lansio prosiect i ddylunio a threialu Platform Dysgu ble mae aelodau yn gallu rhannu a chofnodi dolenni ar gyfer cynnwys gwych.

Ar y wefan www.eralearning.uk mae cronfa o ddolenni parhaol/dros dro ar gyfer cynnwys sydd

wedi ei drwyddedu gan ERA. Mae'r cynnwys wedi ei restru yn ôl pwnc neu allweddair ac mae hefyd adran iaith Gymraeg gyda dolenni at gynnwys S4C a BBC Cymru. Mae'r platform yn caniatáu i ddefnyddwyr adael adborth am yr adnoddau yn ogystal â chyfrannu at fforymau trafod.

Cysylltwch ag ERA os hoffech chi gael mynediad at y gwasanaeth yma yn rhad ac am ddim.

**CONTACT
ERA**

**TELEPHONE
020 7837 3222**

**EMAIL
era@era.org.uk**

**WEBSITE
www.era.org.uk**

**TWITTER
[@ERAresources](https://twitter.com/ERAresources)**